GRŴP COLEGAU
NPTC
GROUP OF COLLEGES

Y GRŴP

mwy nag addysg yn unig

Y GRŴP

Yn 2021-22 mae Grŵp Colegau NPTC yn dathlu 90 mlynedd o ragoriaeth mewn addysg a hyfforddiant.

Daeth Grŵp Colegau NPTC i fodolaeth ar 1 Awst 2013 o ganlyniad i uno Coleg Castell-nedd Port Talbot, a oedd yn ddau goleg ar wahân yn wreiddiol tan 1999, Coleg Afan a Choleg Castell-nedd: a Choleg Powys, a oedd yn dri choleg yn wreiddiol tan 1989, Coleg Trefaldwyn, Coleg Sir Faesyfed a Choleg Howell Harris.

Mae hanes pob un o'r Colegau sy'n ffurfio'r Grŵp yn anhygoel. Ar Fedi 28, 1931 yr agorodd Sefydliad Mwyngloddio a Thechnegol Castell-nedd ei ddrysau wrth i'r chwyldro diwydiannol barhau. Dim ond dechrau'r stori oedd y cychwyn di-nod hwnnw a fyddai'n arwain y Coleg ar y llwybr y mae arno heddiw.

Mae gan bob Coleg yn y Grŵp ei stori ei hun i'w hadrodd hefyd ac maent yn cynnwys Coleg Technegol Margam a agorodd ei ddrysau yn 1952, i gefnogi prentisiaid y gwaith dur, Gwesty Ye Wells yn Llandrindod a ddaeth yn goleg hyfforddi ar ôl y rhyfel yn 1947, ac wedyn ysgol breswyl ar gyfer myfyrwyr â nam ar eu clyw yn 1950. Ni ddaeth yn goleg AB tan 1973. Agorodd Coleg Aberhonddu ym mis Ionawr 1965 fel Coleg Howell Harris. Adeiladwyd Coleg y Drenewydd yn bwrpasol yn 1981 ar ôl newid o Goleg Trefaldwyn, ac agorodd Hafren ei ddrysau yn 1983, ac maent bellach i gyd yn rhan o Grŵp Colegau NPTC - un o'r grwpiau mwyaf o golegau a darparwyr addysg yng Nghymru o ran niferoedd myfyrwyr ac mae ganddo drosiant blynyddol o tua £65 miliwn.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn darparu pob maes galwedigaethol posib mewn addysg a hyfforddiant bron, gan gynnwys Academi 6ed Dosbarth eithriadol yng Ngholeg Castell-nedd. Mae'r Grŵp yn darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant pwrpasol ar gyfer diwydiant a busnes ym mhob cwr o Gymru a Lloegr drwy gyfrwng yr Uned Datblygu Busnes. Hefyd mae'r Coleg yn ddeiliad contract ar gyfer Academi Sgiliau Cymru. Mae hon yn bartneriaeth rhwng wyth darparwr hyfforddiant profiadol iawn sy'n darparu rhyngddynt gontract dysgu seiliedig ar waith gwerth £14 miliwn, un o'r contractau sector cyhoeddus mwyaf yng Nghymru. Hefyd mae'r Grŵp yn rheoli ac yn berchen ar ysgol iaith ryngwladol yn Hampshire, LSI Portsmouth. Mae'r ysgol wedi cael ei hasesu'n annibynnol fel "rhagori ar ddisgwyliadau ym mhob maes" yn arolwg diweddar ISI ar Golegau Addysg Bellach preifat. Mae yn rhif 1 yn y DU gan y Cyngor Prydeinig a'r ISI ac mae miloedd o fyfyrwyr o dramor yn mynychu'r Coleg o bron i 50 o wahanol wledydd, o'r UE ac ymhellach.

Mae'r Grŵp yn darparu ar gyfer traean o dir Cymru. Mae'n gweithredu mewn pedwar prif goleg cymunedol: Coleg Afan, Coleg Bannau Brycheiniog, Coleg Castell-nedd a Choleg y Drenewydd. Hefyd mae gan y Grŵp ganolfannau llai yn cynnwys: Coleg Pontardawe; Canolfan Adeiladwaith Maesteg; Canolfan Adeiladwaith Abertawe; Campws Llandrindod; ac Academi Chwaraeon gwbl fodern ym Mharc Llandarsi. Yn ddaearyddol, mae hyn yn golygu bod tua 100 milltir rhwng ein campws pellaf i'r gogledd a'n campws pellaf i'r de. Fodd bynnag, mae ein his-gwmnïau hefyd yn gweithredu mewn lleoliadau amrywiol yn Abertawe, Llandarsi, Llanelli, Swindon a Portsmouth a chawsant eu sefydlu mewn ymgais i leihau'r ddibyniaeth ar gyllid y llywodraeth. Maent yn cynnwys LSI Portsmouth; Parc Llandarsi Cyfyngedig, sef y cwmni a oedd yn gweithredu'r safle lle mae Academi Chwaraeon Coleg Llandarsi wedi'i lleoli ac mae bellach yn berchen ar yr eiddo ym Mharc Llandarsi yn hytrach na gweithredu o dan drefniant prydles fel yn y gorffennol; JobsForceWales Cyf.; Learn Kit Cyfyngedig; JGR Educate; Green Labryinth (gan gynnwys EngageCRM); Mentrau NPTC, sy'n gwmni daliannol ar gyfer cyfleoedd mentrau cymdeithasol; ac Academi Feicio Cymru.

DARPARU A CHYFLWYNO

Mae gan Grŵp Colegau NPTC raglen ragorol o addysg uwch sef cyrsiau prifysgol a ddarparir mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Coleg Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Glyndŵr a Pearson. Rydym yn darparu graddau BSc (Anrh) a BA (Anrh), Graddau Sylfaen, Cymwysterau HNC a HND, Tystysgrifau/ Diplomâu Addysg Uwch, Tystysgrif mewn Addysg a'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR).

Mae data cyflawniad llwyddiannus sydd wedi'u cyhoeddi gan yr Adran ar gyfer Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru yn dynodi bod Grŵp Colegau NPTC yn cael rhai o'r canlyniadau gorau yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16.

LLWYDDIANT ARHOLIADAU

Yn wyneb blwyddyn arall o darfu gan y pandemig byd-eang, sicrhaodd y Coleg gyfradd lwyddo gyffredinol anhygoel o 100 y cant. Hefyd cafodd y Coleg fwy nag erioed o ganlyniadau A*. Roedd graddau A* i A y Coleg yn 34.6 y cant eithriadol gyda'r myfywyr yn sicrhau cyfradd lwyddo o 100 y cant nodedig yn y 38 o bynciau Safon Uwch a mwy na hanner yn cael graddau A* i B ac 82 y cant yn cael graddau A* i C.

Roedd newyddion da i'r myfyrwyr oedd yn dilyn y rhaglen Rhagoriaeth Dawnus a Thalentog (GATE) hefyd gyda 92% yn cael graddau A* i A a 100% yn cael graddau A* i B. Mae ein cyfradd lwyddo A* i E gyffredinol mewn Safon Uwch yn 100% a chafodd 101 o fyfyrwyr raddau anrhydedd triphlyg yn y cymwysterau Diploma Cenedlaethol Estynedig, gyda 33 o'n myfyrwyr yn cael y proffil graddau uchaf posibl o sêr anrhydedd triphlyg (D* D* D*) sy'n cyfateb i dair A* mewn Safon Uwch.

Roedd un ar ddeg o'r llwyddiannau gorau hynny mewn chwaraeon, sy'n fwy anhygoel fyth o ystyried bod Academi Chwaraeon Llandarsi wedi'i throsglwyddo i'r Bwrdd Iechyd fel Ysbyty Eos dros dro yn ystod y pandemig. Yn ogystal â hyn, llwyddodd nifer anhygoel o'r dysgwyr, 354, i ennill y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch gyda chyfradd lwyddo eithriadol o 100%, a 68% yn cael graddau A* i C.

Mae gan y Grŵp enw rhagorol am: canlyniadau academaidd; ansawdd yr addysgu a'r dysgu; ei gefnogaeth i'r myfyrwyr; ei waith gyda diwydiant a'i waith yn y gymuned. Mae hefyd yn enwog yn genedlaethol am lwyddiant chwaraeon ei fyfyrwyr presennol ac yn y gorffennol ac am gyflawniadau ei fyfyrwyr arlwyo yn ennill sawl cystadleuaeth genedlaethol, gan gynnwys cystadlaethau a heriau Sgiliau, a chafodd ei enwi fel y Darparwr Hyfforddiant Gorau yng Nghymru ac ymhlith deg uchaf y DU gyfan yng Ngwobrau Gadael Ysgol 2020 yn ddiweddar. Mae'r Gwobrau Gadael Ysgol yn unigryw, yn yr ystyr bod mwyafrif yr enillwyr yn cael eu henwebu oherwydd adborth a roddir yn uniongyrchol gan brentisiaid sydd wedi cofrestru ar eu rhaglenni, yn hytrach na dibynnu ar banel beirniaid annibynnol. Mae'r gwobrau'n dathlu'r cyflogwyr a'r darparwyr hyfforddiant gorau ar gyfer unigolion sy'n gadael yr ysgol i fynd ar raglenni prentisiaeth. Cafodd Grŵp Colegau NPTC ei ddewis hefyd fel yr ail Goleg Addysg Bellach Gorau ar gyfer Hyfforddiant Prentisiaethau yn y DU ac yn ddegfed yn y DU am y Profiad Dysgu Gorau.

Rydym yn dilyn polisi 'coleg hygyrch a chynhwysol' gweithredol ac yn darparu ar gyfer myfyrwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol o bob oedran. Gall myfyrwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ddewis dilyn astudiaethau sylfaen, cyrsiau cyn-alwedigaethol neu brif ffrwd. Mae gwasanaeth Cefnogi Myfyrwyr helaeth sy'n cynnwys cyllid myfyrwyr, cymorth lles ac astudio a gwasanaethau asesu a chefnogi arbenigol yn gweithredu ar draws safleoedd y coleg, drwy opsiynau cefnogi ar y safle ac ar-lein. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynwyd Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru i'r Grŵp am addysg ac arweiniad gyrfaoedd a Safon Ansawdd Ffederasiwn y Gofalwyr mewn Cymorth Gofalwyr. Rydym hefyd wedi ennill Statws Gwobr Beacon ddwywaith, am ddarparu Addysg Busnes, drwy ein cwmnïau ymarfer busnes, sydd wedi ennill gwobrau rhyngwladol, a hefyd am y gefnogaeth ragorol rydym yn ei rhoi i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal. Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau AB TES am y gefnogaeth mae'n ei darparu i gyn-filwyr y lluoedd arfog a theuluoedd y rhai sy'n gwasanaethu. Mae hefyd wedi cyrraedd rowndiau terfynol Gwobrau CIPD Cymru yn y categori Dysgu a Datblygu / Datblygiad Sefydliadol Gorau ac ar gyfer Gwobrau Bywydau'n Gweithio Doethach GovNewsDirect am Drawsnewid Digidol.

CYFLEUSTERAU A DATBLYGIADAU

Mae'r Grŵp wedi bod yn dyst i raglen adeiladu ac ad-drefnu stadau fawr dros y blynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys estyniad gwerth £8.5m i'r cyfleuster chwaraeon yn Academi Chwaraeon Llandarsi. Mae'r cyfleuster yn darparu arena cwrt caled gyda lle i 150 o seddi, ardal gemau aml-ddefnydd y tu allan, trac dan do chwe lôn 60m, llain artiffisial awyr agored trydedd genhedlaeth wedi'i chymeradwyo gan yr IRB, wal ddringo, gofod ystafell ddosbarth, ystafell TGCh a llyfrgell. Mae gennym gysylltiadau rhagorol â'r Cyrff Rheoli Cenedlaethol ar gyfer chwaraeon a thimau chwaraeon proffesiynol fel y Gweilch a Chlwb Pêl-droed Dinas Abertawe a'r Dreigiau Celtaidd. Rydym wedi cael ymweliadau gan dimau rygbi a phêl-rwyd rhyngwladol sydd wedi dod i ddefnyddio'r cyfleusterau at ddibenion hyfforddi a gemau. Yn fwy diweddar, trawsnewidiwyd y cyfleuster yn ysbyty maes 340 gwely a'i drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Bae Abertawe mewn ymateb i bandemig COVID. Mae'r cyfleuster bellach wedi'i drosglwyddo'n ôl i'r Grŵp ac mae'n gwbl weithredol unwaith eto.

Mae bloc A/B Coleg Castell-nedd ar Heol Dŵr-y-Felin, sy'n cael ei adnabod fel ein hadeilad mathemateg a gwyddoniaeth, wedi cael ei drawsnewid yn llwyr. Mae adnewyddu'r tri llawr wedi cynnwys estyniad gwydrog newydd a rhoi cladin newydd ar yr adeilad presennol i gyd.

Mae'r tu mewn wedi cael ei drawsnewid yn llwyr gyda hwb myfyrwyr newydd cynllun agored lle gall y myfyrwyr a'r staff weithio neu ymlacio. Mae gan y cyfleuster hynod fodern allu sgrin gyffwrdd, Wi-Fi am ddim a mannau gwefru, yn ogystal â siop goffi Starbucks a chyfleusterau arlwyo, a lifft i sicrhau mynediad i'r lloriau uchaf. Mae'r adnewyddu cynaliadwy wedi gwella effeithlonrwydd ynni yng Ngholeg Castell-nedd hefyd, yn unol ag ymrwymiad y Coleg i wella defnydd o ynni a lleihau allyriadau CO2. Enillodd y gwaith adnewyddu wobr nodedig Adeiladau Addysg 2019 ar gyfer y "profiad gorau i fyfyrwyr".

Yn 2020, ehangodd y Coleg ei ddarpariaeth alwedigaethol yng Ngholeg Castell-nedd drwy adeiladu gweithdy brics pwrpasol newydd gwerth £1,100,000 ar gyfer yr adran adeiladu. Mae'n golygu bod gan y myfyrwyr arwynebedd llawr ychwanegol dan do lle gallant gymryd rhan mewn sesiynau ymarferol gan gynnwys gwaith brics a theilsio.

Ar hyn o bryd mae'r Grŵp yn rhan o ddau gynllun adeiladu cyffrous sy'n mynd ati i drawsnewid addysg yng Nghastell-nedd, Port Talbot ac Aberhonddu. Ym Mhort Talbot, y cynnig yw adeiladu campws newydd fel rhan o gynllun datblygu ac adfywio Glan yr Harbwr ar gyfer Port Talbot. Mae hyn yn rhan o'r datblygiad eang sy'n gysylltiedig â'r ffordd ddosbarthu ymylol newydd gwerth £110m a Gorsaf Reilffordd newydd Parkway gwerth £10m.

Bydd y campws newydd yn darparu ar gyfer y ddarpariaeth sydd ar hyn o bryd ar Gampws Afan, gan gynnwys canolfannau rhagoriaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Peirianneg Adeiladu. Bydd Gwallt, Harddwch a Therapïau Cyfannol yn cael eu lleoli mewn adeilad "ffordd o fyw" a fydd yn cael ei redeg fel busnes hunangynhaliol gan ddarparu sector gwasanaethu allweddol yng nghanol y dref. Bydd y prif adeiladau addysgol yn adnodd cwbl fodern. Ni fydd cyfleusterau ffreutur traddodiadol yn rhan o'r datblygiad, ond bydd yn cynnwys siop goffi arbenigol ar ryddfraint. Yn hytrach, bydd y 1,000 o fyfyrwyr y dydd yn defnyddio canol y dref ym Mhort Talbot, gan ddarparu bywyd a buddsoddiad y mae eu gwir angen yn yr ardal.

Yn Aberhonddu mae gwaith wedi'i gwblhau eisoes ar adnewyddu'r Ganolfan Gwybodaeth i Dwristiaid fel lleoliad cymunedol. Agorodd CWTCH ei ddrysau i'r gymuned yn gynharach eleni gan gynnig cyfrifiadura cwbl fodern i'r myfyrwyr a'r cyhoedd gyda chyswllt rhyngrwyd 1GB eithriadol gyflym; cyfleusterau fideo-gynadledda; ardaloedd gwaith hyblyg a gofod addysgu.

Mae cynlluniau pellach i adleoli Coleg Bannau Brycheiniog i dref Aberhonddu. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ynghylch sicrhau dau adeilad yn y dref. Byddwn yn gallu rhoi mynediad uniongyrchol i'n myfyrwyr i ganol y dref a'r cyfleusterau a ddarperir gan fusnesau lleol yn ddyddiol.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn cyflwyno Astudiaethau Tir o Fferm Fronlas yn y Drenewydd a Fferm Cefnybryn yn Sarn. Mae'r campws addysgu a phrif ganolfan y fferm wedi'u lleoli lai na 0.5 milltir o brif safle Coleg y Drenewydd. Mae'r ardal addysgu yn cynnwys bloc addysgu a gweinyddu pwrpasol modern. Mae'r bloc yn rhoi mynediad i bedair ystafell ddysgu, ystafell TG, ystafelloedd cotiau a chawod, ystafell gyffredin a chyfleusterau swyddfa i'r staff. Hefyd mae gofod gweithdy sylweddol ar gael ar gyfer peirianneg amaethyddol a darparu peiriannau amaethyddol.

Mae gan fferm y Coleg ystod o gyfleusterau i gartrefu a thrin gwartheg a defaid ac mae wedi elwa'n ddiweddar o gyfleuster cartrefu defaid pwrpasol newydd sydd wedi galluogi'r fferm i arddangos arfer masnachol modern ym maes cartrefu ac wyna'r ddiadell o ddefaid. Mae Fferm Fronlas yn y Drenewydd yn 55 hectar ac yn laswelltir yn bennaf. Fferm ucheldir ydyw yn bennaf gydag ardaloedd bach o iseldir ac mae'n amrywio rhwng 130 a 230 metr uwchben lefel y môr.

Mae'r uned hon yn darparu pori ar gyfer y fuches sugno sy'n lloia yn y gwanwyn a dyma'r brif ardal ar gyfer cadw porthiant y gaeaf sy'n darparu bwyd dros y gaeaf ar ffurf silwair ar gyfer y fuches sugno, y lloi, y fenter gorffen eidion gysylltiedig ac ar gyfer y defaid yn ystod eu cyfnod dan do dros y gaeaf. Mae'r holl siediau da byw ar gyfer y gaeaf wedi'u lleoli ar Fferm Fronlas. Mae ardal y fferm yn cynnwys ardaloedd bach o goetir, glannau serth, glan

afon, llwybrau troed, cloddiau a Safle Celtaidd. Defnyddir y rhain yn dda fel rhan o brosiectau cefn gwlad amrywiol.

Mae fferm Fronlas yn cael ei gweithredu ar y cyd â Fferm Cefnybryn yn Sarn sy'n 62 hectar ac yn fferm ucheldir / mynydd sydd wedi'i gwella. Defnyddir hon yn bennaf ar gyfer defaid pori gyda rhai ardaloedd yn cael eu defnyddio ar gyfer cadw porthiant gaeaf a hefyd ardaloedd bychain o gnydau gwraidd ar gyfer pesgi ŵyn yn ystod misoedd yr hydref. Mae gan y fferm gyfleusterau trin da byw sylfaenol ac mae'n cael ei defnyddio gan y myfyrwyr i gwblhau llawer o'r tasgau trin defaid blynyddol fel cneifio. Mae'r fferm hon yn codi o 300 i fwy na 400 metr uwchben lefel y môr.

MASNACHOL

Mae ein hincwm masnachol yn gynyddol bwysig i'r Grŵp ac rydym yn edrych ar nifer o ffyrdd o ddenu incwm di-graidd. Darperir hyfforddiant i gyflogwyr gan gangen masnachol y Colegau o dan yr Uned Datblygu Busnes (UDB).

Mae'r UDB yn darparu atebion hyfforddi a datblygu pwrpasol i gyflogwyr a busnesau. Mae'n ymdrechu i gynnig profiad defnyddiwr rhagorol i sicrhau bod cyflogwyr ac unigolion yn derbyn yr hyfforddiant sy'n angenrheidiol i aros ar y blaen wrth feithrin perthnasoedd a datblygu partneriaethau er budd y rhanbarth.

Mae'r UDB wedi addasu ei darpariaeth yn ystod COVID ac wedi cyflwyno mwy o opsiynau E-Ddysgu.

Mae'r Coleg yn llwyddiannus iawn yn tendro am waith drwy'r Gronfa Blaenoriaethau Sector a thendrau agored eraill. Mae hon yn rhan lwyddiannus ac amrywiol o'r Grŵp sy'n gweithredu'n gwbl fasnachol heb gefnogaeth cyllid craidd. Gellir dod o hyd i'n gwybodaeth am gwrs masnachol drwy fewngofnodi i www.nptcgroup.ac.uk/business.

Hefyd mae'r Grŵp yn gweithredu Hafren, y prif leoliad theatr, cynhadledd a chyfarfod yn y Drenewydd, canolbarth Cymru. Gyda lle i 556 o bobl yn eistedd, mae gan yr awditoriwm gyfleusterau llwyfan, sain a goleuo llawn, seddau ar ogwydd, a system cymorth clywed Bluetooth gwbl fodern "Mobile Connect". Mae gwasanaeth technegol proffesiynol llawn ar y safle'n sicrhau'r sain, y goleuo a'r llwyfan gorau ar gyfer eich cyflwyniad. Gydag arlwyo addas i'r holl ofynion, mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd proffesiynol a busnes, sy'n hyblyg o ran croesawu amrywiaeth eang o niferoedd, o 50 a mwy. Gellir defnyddio bar oriel y theatr fel man cyfarfod bychan (hyd at 20 o bobl), gofod arddangos, ystafell grŵp neu ar gyfer arlwyo / lluniaeth. Hefyd mae Cyntedd y lleoliad ar gael ar gyfer derbyniadau ac arddangosfeydd bychain.

Mae casgliad o dair ystafell cynhadledd / cyfarfod ar gael gyda lle i rhwng 10 a 70 o bobl. Gellir defnyddio'r cyfleusterau yma fel ystafelloedd ychwanegol ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn Hafren. Yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd ar gyfer adeiladau cyhoeddus, mae'r System Wresogi ac Awyru yn cael ei newid i ddarparu ar gyfer y Ddeddf Lleihau Clefydau yn yr Aer, fel bod holl ddefnyddwyr y cyfleuster yn ddiogel.

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Mae Grŵp Colegau NPTC wedi ymrwymo i weithio drwy bartneriaethau real ac effeithiol gyda llawer o sefydliadau eraill. Yn ogystal â bod â pherthynas waith gadarn iawn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Powys, mae'r Coleg yn gweithio'n agos gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol. Mae'r gwaith partneriaeth ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn cael ei ystyried fel esiampl ragorol yng Nghymru. Ym Mhowys, mae gennym berthynas effeithiol iawn gyda Busnesau canolbarth Cymru, consortiwm Dysgu Seiliedig ar Waith Canolbarth Cymru a Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru ac mae partneriaethau pellach yn parhau i gael eu ffurfio.

Mae'r Grŵp yn ymdrechu i gryfhau ei gysylltiadau â'r gymuned a sicrhau ei fod yn cael ei gydnabod fel busnes cyfrifol gyda nodau moesegol, amgylcheddol a chymunedol. Ei nod yw gwneud hyn drwy ddatblygu perthnasoedd cadarn, cydweithredol gyda'n rhanddeiliaid a chreu ymdeimlad o bwrpas a rennir wedi'i seilio ar degwch a chynaliadwyedd, sy'n grymuso pobl â'r sgiliau sydd arnynt eu hangen i lwyddo mewn bywyd, yn cefnogi cynhyrchiant ac arloesedd busnesau ac yn cryfhau'r ymdeimlad o le yn ein cymunedau.

Nod y Grŵp yw cynnig yr hyfforddiant, y cymwysterau a'r achrediadau gorau i'n dysgwyr, felly rydym wedi llunio a meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant eraill i sicrhau ein bod yn gallu cyflwyno cyrsiau eithriadol. Cyrsiau lle gall ein dysgwyr ddysgu nid yn unig y sgiliau, ond hefyd ennill y cymwysterau a'r achrediadau i allu defnyddio a rhagori, os yw hynny allan yn y maes gyda dronau neu y tu mewn yn gosod drysau tân yn eu lle.



Mae'r Grŵp yn addysgu'r sgiliau hanfodol o'r gwaelod i fyny drwy feysydd diwydiant allweddol, fel diogelwch tân gyda chyrsiau'n cael eu cynnig drwy Academi Dân y Grŵp ei hun. Mae'r Academi hon yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i gynnig cyfrwng un stop ar gyfer hyfforddiant tân, drwy bartneriaeth gydweithredol o arbenigedd a sgiliau cydnabyddedig.

Cred y Grŵp y bydd ymgysylltu agos rhwng y sector addysg bellach, cyflogwyr a'r gymuned yn rhan allweddol o'r chwyldro diwydiannol gwyrdd. O ran swyddi gwyrdd, rydym yn sefydlu her sgiliau newydd, chwyldro o'r sgiliau newydd, a fydd yn dod yn greiddiol yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Nid oes gennym yr holl atebion neu ddatrysiadau, ond rydym yn mynd i'r afael â'r her drwy weithio gyda rhanddeiliaid, fel rydym wedi'i wneud wrth ddarparu gweithdrefnau diogelwch tân arloesol a cheir hybrid er enghraifft.

Rydym eisoes wedi ymgysylltu â sefydliadau a gweithgynhyrchwyr peirianneg adeiladu blaenllaw, gan edrych ar y lefelau cymhwysedd sydd eu hangen a sut orau i ddarparu'r sgiliau hyn i Gymru ac mae partneriaethau wedi cael eu ffurfio i ddod o hyd i atebion.

Mae'r Grŵp ar Fwrdd Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru ac mae'n cadeirio'r grŵp sgiliau a hyfforddiant i gefnogi cwmnïau ac unigolion gyda'r sgiliau sydd eu hangen. Mae'r Grŵp hefyd yn cadeirio'r Ysgol Cadwyn Gyflenwi Cynaliadwyedd yng Nghymru, yr unig goleg AB sy'n bartner yn y DU, ac rydym yn chwarae rhan flaenllaw mewn hyfforddiant sgiliau yn arferion cynaliadwy'r DU.

Maes allweddol arall yw'r amgylchedd adeiledig sy'n newid yn gyflym gyda Llywodraeth Cymru yn lansio'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wrth iddynt chwarae eu rhan wrth anelu at sero net drwy brofi dull newydd o ddatgarboneiddio cartrefi Cymru. Bydd y rhaglen hon yn gosod y safon ar gyfer cynlluniau ôl-osod yng Nghymru ac mae ganddi'r potensial i alluogi cartrefi preifat i gyrraedd targed datgarboneiddio 2050 a darparu economi werdd carbon isel a chreu 15,000 o swyddi newydd yng Nghymru yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Felly, mae angen gweithlu medrus i fod yn barod ac wedi paratoi i fodloni safonau a chymwyseddau diwydiant.

Nid yw swyddi gwyrdd yn ateb dros nos, mae angen i ni greu rhaglen sgiliau o safon, y gellir ei chyflawni dim ond drwy weithio ar y cyd i gyflawni ar gyfer y rhanbarth. Bydd y swyddi hyn yn parhau i ddatblygu, wrth i offer, deunyddiau a thechnoleg esblygu, ac mae angen i ni addasu'n gyson i gyflawni'r her hon. Mae'r partneriaethau hyn hefyd yn gorfodi ein cenhadaeth i weithio gyda sefydliadau a chwmnïau i helpu i greu dyfodol gwyrddach. Drwy ymgysylltu ag arweinwyr diwydiant mewn gwahanol feysydd allweddol, gallwn edrych ar y lefelau cymhwysedd sydd eu hangen a sut gallwn weithio gyda'n gilydd i gefnogi a datblygu cyrsiau a gweithwyr medrus a fydd yn diwallu galw'r rhanbarth.

LLYWODRAETHU

Mae llywodraethu yn ymwneud â'r syniadau, y strwythurau a'r systemau hynny sy'n siapio cyfeiriad strategol a rheolaeth y Coleg er budd ei holl randdeiliaid - y myfyrwyr, eu rhieni, cyflogwyr presennol ac yn y dyfodol, y staff a'r gymuned ehangach o fuddiannau sydd, gyda'i gilydd, yn adlewyrchu ac yn cynrychioli Castell-nedd Port Talbot a Phowys.

Mae'r llywodraethwyr, drwy Fwrdd y Gorfforaeth a'i Bwyllgorau, yn gyfrifol am genhadaeth, cyfeiriad strategol a diogelwch ariannol y Coleg. Mae'r Uwch Dîm Rheoli, dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredol, yn gyfrifol am reolaeth strategol y Coleg a gweithredu polisi'r Gorfforaeth.

Rhan o ethos rheoli Grŵp Colegau NPTC yw ymrwymiad i fod yn agored, tryloyw, gonest ac atebol drwy wneud cymaint o wybodaeth yn gyhoeddus â sy'n rhesymol heb gyfaddawdu cyfrinachedd busnes a hawl gyfreithiol yr unigolyn.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn cael ei arwain gan Uwch Dîm Rheoli cadarn ac amrywiol. Mae'r uwch reolwyr wedi gweithredu gan gadw at ymdeimlad cadarn o dîm erioed gan gefnogi ei gilydd ac ysgwyddo cyfrifoldeb unigol a chasgliadol am ddatblygiad strategol a gweithrediaeth gyffredinol y Coleg. Mae'r Uwch Dîm yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredol y Grŵp; y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol; Yr Is Bennaeth - Gwasanaethau Academaidd; Yr Is Bennaeth – Cysylltiadau Allanol; Yr Is Bennaeth - Gwasanaethau Ariannol; Yr Is Bennaeth - Gwasanaethau Gweithredol a'r Penaethiaid Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd; Cwricwlwm, Myfyrwyr; Recriwtio Myfyrwyr; AU; Gweithrediadau Byd-eang a Sgiliau.

Mae gwaith yr uwch reolwyr yn cael ei gefnogi gan grŵp o uwch reolwyr canol. Mae'r unigolion hyn yn rheolwyr unedau academaidd a swyddogaethau allweddol sy'n gweithredu fel y rhyngwyneb rhwng y parthau strategol a gweithredol. Mae'r Coleg yn ymfalchïo yn ei gymwysterau uchel a phrofiad yr holl staff, gan gynnwys darlithwyr, aseswyr, hyfforddwyr a'r holl staff cefnogi busnes hanfodol.

Grŵp Colegau NPTC, Heol Dŵr-y-Felin, Castell-nedd, SA10 7RF

Ffôn: 01639 648000
www.nptcgroup.ac.uk

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

mwy nag addysg yn unig

Nodiadau

GRŴP COLEGAU
NPTC
GROUP OF COLLEGES

mwy nag addysg yn unig